## COD YMARFER LLYWODRAETH CYMRU :

## DATGANIAD CYFLOGAETH FOESEGOL MEWN CADWYNI CYFLENWI 2024/25

Cyflwynwyd Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn cadwyni cyflenwi er mwyn tynnu sylw at yr angen ym mhob cam o'r gadwyn gyflenwi, i sicrhau bod arferion cyflogaeth dda yn bodoli ar gyfer pob gweithiwr, yn y Deyrnas Unedig a thramor. Mae'r Cod hefyd yn cydymffurfio â deddfwriaeth y DU ar ffurf Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015.

Mae'r Cod yn ymdrin â'r materion cyflogaeth a ganlyn :-

- Caethwasiaeth Fodern a thorri hawliau dynol
- Cosbrestru
- Hunangyflogaeth ffug
- Defnydd annheg o gynlluniau mantell a chontractau dim oriau
- Talu'r Cyflog Byw

Mae gan bob sefydliad sector gyhoeddus rôl i'w chwarae i symud yr agenda hwn yn ei flaen ac i helpu dileu arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesegol. Bydd hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o'r Cod rhwng ei staff ei hunain yn ogystal a'u cyflenwyr/contractwyr. Mae gweithredu'r ymrwymiadau o fewn y Cod yn gofyn am gydweithrediad staff prynu / caffael yn ogystal â recriwtio. Bydd y Cyngor yn llunio Cynllun Gweithredu o ran yr ymrwymiadau o fewn y Cod, o fewn ei adolygiad o'i Bolisi Caffael Cynaliadwy.

Ym mis Mehefin 2018, cymeradwyodd Cabinet Cyngor Gwynedd amcanion y Cod a lluniwyd Cynllun Gweithredu. Hyd yn hyn, mae'r Cyngor yn cadarnhau ei fod yn cwrdd â'r ymrwymiadau a ganlyn :-

- Cynhyrchu Datganiad Cyflogaeth Foesegol, ar gael ar wefan y Cyngor
- Penodi Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol fel Pencampwr Cyflogaeth Foesegol, ynghyd ag Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant (ar gyfer Caethwasiaeth Fodern)
- Polisi chwythu'r chwiban er mwyn galluogi i staff godi amheuon am unrhyw ffurf o gamymddygiad gan ei staff neu gyflenwyr/contractwyr yn gweithio ar adeiladau'r Cyngor
- Cyflwyno modiwl E-ddysgu Llywodraeth Cymru ar y Cod Ymarfer er mwyn staff sy'n ymwneud â phrynu/caffael a recriwtio, a chadw cofnod o'r rhai sydd wedi ymgymryd â'r hyfforddiant
- Talu cyflenwyr o fewn 30 diwrnod o dderbyn anfoneb ddilys
- Dim defnydd annheg o hunan-gyflogaeth ffug, cynlluniau mantell na chontractau dim oriau fyddai'n arwain at osgoi talu Treth / Yswiriant Gwladol fydd yn rhoi ei weithwyr dan anfantais o ran cyflog, hawliau, cyfleoedd
- Ceisiwyd sicrwydd gan gyflenwyr, ger y broses dendro, nad ydynt yn gwneud defnydd o gosbrestrau/rhestrau gwaharddedig. Yn ogystal, dim defnydd o gosbrestrau / rhestrau gwaharddedig gan y Cyngor
- Cwestiynau perthnasol yn ymwneud â'r Cod yn cael ei gofyn i gyflenwyr fel rhan o'r broses cyn gymhwyso
- Termau penodol yn ymwneud â chaethwasiaeth fodern a chyflogaeth foesegol wedi ei ymgorffori yn Nhermau ac Amodau Safonol y Cyngor
- Bydd unrhyw rai o staff y Cyngor sy'n trosglwyddo i drydydd parti yn cadw eu telerau a'u hamodau gwaith
- Cynhyrchu Datganiad Caethwasiaeth Fodern (yn unol â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015), ar gael ar wefan y Cyngor

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda'i staff i fynd i'r afael â'r ymrwymiadau sydd yn weddill yn y Cod. Bydd hefyd yn cynhyrchu datganiad ysgrifenedig blynyddol mewn perthynas â'i rwymedigaethau o dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 a bydd yn diweddaru unrhyw gynnydd a wnaed.

(Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru) :

Cyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi: cod ymarfer | LLYW.CYMRU

Animeddiad : Cod ymarfer: Cyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi - YouTube